



Modiwl 2A

Awst 2022

AMLINELLIAD AMODOL O'R CWMPAS

(yn amodol ar gyflwyniadau gan Cyfranogwyr Craidd a Chwnsler i'r Ymchwiliad)

Bydd y modiwl hwn yn edrych ar ac yn gwneud argymhellion am benderfyniadau craidd gwleidyddol a gweinyddol Llywodraeth yr Alban mewn ymateb i'r pandemig Covid-19 rhwng dechrau Ionawr 2020 ac Ebrill 2022, pan gafodd y cyfyngiadau Covid-19 oedd yn weddill eu codi yn yr Alban. Bydd yn archwilio penderfyniadau grwpiau ac unigolion allweddol o fewn Llywodraeth yr Alban gan gynnwys y Prif Weinidog a gweinidogion Albanaidd eraill. yn enwedig rhwng dechrau Ionawr a diwedd Mawrth 2020 pan gafodd y cyfyngiadau symud cenedlaethol cyntaf eu gosod. Ymgymerir ag ystyriaeth fanylach o nifer o brif feysydd ac effaith y pandemig ar y meysydd hynny yn yr Alban yn ddiweddarach yn yr Ymchwiliad.

Bydd Modiwl 2A yn archwilio:

1. Strwythur Llywodraeth yr Alban a'r cyrff allweddol o'i mewn oedd yn cymryd rhan yn ymateb yr Alban i'r pandemig, a'u perthnasoedd a'u cyfathrebiadau â Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig eraill ac awdurdodau lleol o fewn yr Alban.
2. Dealltwriaeth gychwynnol Llywodraeth yr Alban o, ac ymateb i, natur a lledaeniad Covid-19 yn yr Alban yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2020 yng ngoleuni gwybodaeth a chynngor a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU a chyrff rhyngwladol a chenedlaethol perthnasol eraill, cynngor gan gynghorwyr gwyddonol, meddygol ac eraill ac ymateb gwledydd eraill, gan gynnwys ei hymateb strategol gychwynnol i brif ddigwyddiadau lle heintiwyd llawer o bobl drod y cyfnod hwnnw.
3. Penderfyniadau gan Lywodraeth yr Alban yn ymwneud â gosod neu beidio gosod ymyriadau anfferyllol (NPlau), gan gynnwys cyfyngiadau symud, cyfyngiadau lleol, gweithio o gartref, lleihau cysylltiad unigolyn i unigolyn, cadw pellter cymdeithasol, y defnydd o orchuddion wyneb, rheoli ffiniau, y datblygiad cychwynnol o Brofi a Diogelu yn ogystal â'r

systemau ardystio ac ap a gyflwynwyd gan Lywodraeth yr Alban; y raddfa a'r rhesymeg y tu ôl i wahaniaethau mewn ymagwedd rhwng Llywodraeth yr Alban a llywodraethau eraill yn y DU; amseroldeb a rhesymoldeb y fath NPlau, gan gynnwys yr effeithiau tebygol pe byddai penderfyniadau i ymyrryd wedi cael eu cymryd yn gynharach neu'n wahanol; datblygiad yr ymagwedd at NPlau yng ngoleuni dealltwriaeth Llywodraeth yr Alban o'u heffaith ar drosglwyddiad, heintiad a marwolaeth; yr adnabyddiaeth o grwpiau mewn perygl a rhai eraill agored i niwed yn yr Alban a'r asesiad o'r effaith debygol o'r NPlau arfaethedig ar y fath grwpiau yng ngoleuni anghydraddoldebau sy'n bodoli; a'r effaith, os o gwbl, o gyllido ymateb yr Alban i'r pandemig ar wneud penderfyniadau o'r fath, gan gynnwys cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth y DU.

4. Mynediad a defnyddio arbenigedd meddygol a gwyddonol mewn gwneud penderfyniadau; casglu a modelu data'n ymwneud â lledaeniad y feirws yn yr Alban; mesur a deall cyfraddau trosglwyddiad, heintiad, mwtaniad, ailheintiad a marwolaeth yn yr Alban, a'r berthynas rhwng a gweithrediad systemau perthnasol ar gyfer casglu, modelu a dosbarthu data.
5. Cyfathrebiadau iechyd cyhoeddus gan Lywodraeth yr Alban a phrif asiantaethau iechyd cyhoeddus eraill, yn enwedig mewn perthynas a'r camau'n cael eu cymryd i reoli lledaeniad y feirws; tryloywder y negeseuon; defnydd o reolaeth ymddygiadol a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn Llywodraeth yr Alban, gan gynnwys effaith unrhyw doriadau honedig o reolau a safonau gan Weinidogion, swyddogion a chynghorwyr; a
6. Y ddeddfwriaeth a rheoliadau iechyd cyhoeddus a choronafeirws a gafodd eu cynnig a'u deddfu: eu cymesurolddeb a'u gorfodaeth ledled yr Alban.



© Crown copyright 2022

This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit

nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.

This publication is available at <https://covid19.public-inquiry.uk/>

Any enquiries regarding this publication should be sent to us at contact@covid19.public-inquiry.uk.